

## CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 3ydd o Fawrth 2020 yn Yr Hen Ysgol

Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

### Presennol

Cadeirydd: Arwel Evans

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Llinos Davies, Lon Davies, Sarah-Jane Absalom, Ieuan Davies

Cynghorydd Sir: Cyng. Cris Tomos

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Robin Phillips

### Cyfarfod - 04/02/2020

Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Lon Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

### Materion yn codi o'r cofnodion

98. Ebst Will ac Eileen Thomas, Llisybryn, Eglwyswrw ynglyn a dwr sydd yn dal ar y ffordd. Cadarnhaodd Y Cyng. Cris Tomos bod e wedi cysylltu a Cyngor Sir Benfro a fe fydd cynrychiolydd or Sir yn galw I weld y broblem

### Gohebiaeth

99. Cyfanwsm yn y banc 25.02.20 - £3,615.56

100. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Llythyr yn gofyn am gais ariannol. Cynigodd Sarah-Jane Absalom ac eiliodd Lon Davies cyfraniad o £100.00

101. Llythyr wrth Gwyl fel' na Mai – Llythyr yn gofyn am gais arainnol. Cyn trafod fe wnaeth Cyng. Cris Tomos datgan diddordeb yn y mater. Cynigodd Sarah-Jane Absalom ac eiliodd Enid Cole cyfraniad o £150.00

102. Gofal Mewn Galar – Llythyr yn gofyn am gais ariannol. Cynigodd Lon Davies ac eiliodd Ieuan Davies cyfraniad o £50.00

103. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Glynhafren, Eglwyswrw 19/0923/PA estyniad ac addasu'r ty. Cais wedi ei gymeradwyo'n amodol.

104. Ebst wrth Alwyn Evans Pwyllgor Neuadd Ffynnongroes. Cyng. Cris Tomos wedi sharad a Mel Stephens o Cyngor Sir Benfro ynglyn a'r golau yma. Pryder mawr ynglyn a lechyd a Diogelwch ac Yswiriant.

105. Asesiad Risg Cyngor Cymuned Eglwyswrw. Dosbarthwyd yr Asesiad I pawb. Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Lon Davies I dderbyn yr Asesiad.

106. Cyngor Sir Benfro Cais Cynllunio Clwb Ffermwyr Ifanc Eglwyswrw – Dymchwel y bloc toiledau ac ail adeiladu toilet anabl. Roedd yna tipyn o drafod ynglyn a hyn ac eisiau I Helen gysylltu gyda Aled Thomas I gadarnhau na fydd y goeden sydd o flaen yr adeilad yn cael unrhyw ddifrod.

107. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Tanybryn, Brynberian. Newid defnydd o annedd (C3) I westy a llety I rheolwr. Cais wedi ei wrthod.

#### Unrhyw Fater Arall

108. Ebost wrth Sandra Llewellyn ar rhan Pwyllgor Brynberian – Gweithdy Fflam Heddwch Brynberian I deuluoedd – Dydd Sul Mawrth 8fed yng Nghanolfan Llwynihirion 10yn tan 12 canol dydd. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac fe fydd yn yr hysbysfwrdd.

109. Ebost wrth Huw Jones Cyngor Sir Benfro ynglyn ac ad-drefnu darpariaeth addysg cynradd ac uwchradd yn ardal Crymoch. Cyfnod ymgynghori hyd 15 Ebrill 2020. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.

110. Cyngor Sir Benfro – Cynllun Datblygu Lleol 2 – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb Ymgynghoriad yn dod I ben 11 o Fawrth 2020.

111. Anfoneb wrth Sandra Llewellyn am goleuadau Coeden Nadolig Brynberian. Ar ol trafodaeth cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Sarah Jane Absalom I peidio a dalu yr anfoneb yma gan mae dim ond am y coed Nadolig cytunwyd I prynu.

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 7fed o Ebrill am 8.00y.h.**

**Terfynwyd y Cyfarfod am 9.15 y.h.**